# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13 Mawrth 2018 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd  Y Cynghorydd Gareth Roberts a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan |
| **Swyddog Cyswllt:** | Rhion Glyn (Uwch Rheolwr Busnes, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679268 |
| **Teitl yr Eitem:** | Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru 2018 i 2023 |

**1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1 I gymeradwyo'r Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru 2018 i 2023 (Atodiad 1).

**2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1 Er mwyn sicrhau cydymffurfiad a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017.

**3 CYFLWYNIAD**

3.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd yng Ngogledd Cymru gynhyrchu cynllun ardal ar y cyd yn ymateb i'r asesiad poblogaeth erbyn 1af o Ebrill 2018. Dylai fod yn gynllun pum mlynedd. Yng Ngogledd Cymru rydym wedi cytuno i alw'r cynllun yn 'Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru 2018 i 2023' i osgoi dryswch gyda strwythur ardaloedd y Bwrdd Iechyd yn lleol.

**4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

4.1 Mae'r canllawiau statudol yn nodi:

"Pan fo adroddiad ar y cyd ar yr asesiad o'r boblogaeth wedi'i lunio, dylai awdurdodau lleol a BILI lunio cynllun ardal ar y cyd. Mae'n rhaid i'r cynlluniau ardal ar y cyd hyn ddarparu disgrifiad o amrywiaeth a lefel y gwasanaethau y maen nhw'n bwriadu eu darparu neu eu trefnu mewn ymateb i'r anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys

anghenion cymorth gofalwyr a nodwyd yn yr adroddiadau cyfunol ar yr asesiad o'r boblogaeth.

Mae'n rhaid i gynlluniau ardal ar y cyd ganolbwyntio ar y gwasanaethau integredig a gynlluniwyd mewn ymateb i bob un o'r themâu craidd a nodwyd yn yr asesiad o'r boblogaeth. Yn rhan o hyn, mae'n rhaid i gynlluniau ardal ar y cyd gynnwys:

- y camau y bydd partneriaid yn eu cymryd o ran y meysydd â blaenoriaeth i'w hintegreiddio ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol;
- yr adegau y bydd cronfeydd cyfun yn cael eu defnyddio mewn ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a manylion y rhain;
- sut y bydd gwasanaethau yn cael eu caffael neu sut y trefnir eu darparu, gan gynnwys drwy fodelau cyflenwi eraill;
- manylion y gwasanaethau ataliol a fydd yn cael eu darparu neu eu trefnu;
- y camau sy'n cael eu cymryd o ran darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth; a
- y camau gofynnol i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg."

4.2 Bu i Ofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru gynhyrchu templed ar gyfer y cynllun dan sylw (Atodiad 1). Mae hwnnw wedi ei ddefnyddio fel sail i'r cynllun drafft ac roedd y drafft cyntaf o'r cynllun yn seiliedig ar ddarganfyddiadau'r asesiad poblogaeth a beth mae'n rhaid i ni wneud er mwyn ymateb i'r gofynion cyfreithiol. Fe gafodd y drafft cyntaf ei gymeradwyo gan y Grŵp Arweinyddion Rhanbarthol ar y 30ain o Fehefin 2017 a'r Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol ar 21ain o Orffennaf 2017.

4.3 Yn dilyn gwaith pellach ar y cynllun, a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 11eg o Awst a 17eg o Dachwedd 2017, mae'r cynllun wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Grŵp Arweinyddiaeth Ranbarthol ar y 15fed o Ragfyr 2017 a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar yr 11eg o Ionawr 2018.

4.4 Mae'r cynllun hwn yn nodi sut bydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn ymateb i ganfyddiadau'r Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru a gyhoeddwyd ar 1af o Ebrill 2017.

4.5 Mae'r cynllun hefyd yn fan cychwyn ar gyfer gwaith rhanbarthol ffurfiol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'n nodi fframwaith i bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd dan raglen gyffredin. Yn ogystal â nodi egwyddorion, canlyniadau a blaenoriaethau ar gyfer gwaith rhanbarthol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng ngogledd Cymru, mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau sydd wedi eu hamlygu gan ddinasyddion.

4.6 Er hyn dylid nodi nad yw'r cynllun rhanbarthol dan sylw yn cynnwys yr holl flaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ond yn canolbwyntio yn hytrach ar feysydd gwaith sy'n gofyn am weithio mewn partneriaeth. Er mwyn sicrhau nad oes dyblygu camau gweithredu gyda rhaglenni gwaith sy'n bodoli eisoes, nid yw'r cynllun yn cynnwys casgliad eang o gamau gweithredu manwl, ond yn hytrach felly yn 'cyfeirio' at gynlluniau eraill.

4.7 Cafodd yr Adroddiad Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar yr 2il o Fawrth 2017. Nodwyd yn yr adroddiad gafodd ei gyflwyno i'r Cabinet ar y 14eg o Chwefror 2017 y camau isod.

- *Cam nesaf y prosiect rhanbarthol fydd defnyddio'r Asesiad Poblogaeth i ddatblygu cynllun ardal ar gyfer rhanbarth y gogledd, ac i'r perwyl hwnnw rydym ar hyn o bryd yn disgwyl arweiniad gan Lywodraeth Cymru.*

- *Yn fwy lleol wedyn, ac yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn bwrw ati i sicrhau fod gennym y dystiolaeth fwyaf addas ar gyfer comisiynu'n briodol yn y dyfodol.*

4.8 Mewn ymateb i sylwadau'r Prif Weithredwr yn y Cabinet ar y 14eg o Chwefror 2017, mae'r gwaith o grynhoi a dehongli'r data ar lefel lleol bellach yn dirwyn i ben. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried sut mae'r wybodaeth yn dylanwadu ein rhaglenni gwaith cyfredol, gan adnabod felly unrhyw fylchau neu wendidau y mae angen gwneud rhywbeth amdanynt. Rhagwelir y byddwn yn cyflwyno fersiwn lleol o'r Asesiad Poblogaeth i'r Pwyllgor Craffu Gofal yn y gwanwyn.

<u>Goblygiadau adnoddau</u>

4.9 Mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru yn cyllido Rheolwr Prosiect Rhanbarthol i gefnogi'r prosiect a chostau cysylltiol gan gynnwys cyfieithu ac ymgysylltu arbenigol.

4.10 Mae cost i'r awdurdodau lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran amser staff i gefnogi'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys staff i ymgymryd â gwaith ymgysylltu gyda'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, staff ac aelodau etholedig a staff i gefnogi'r ysgrifennu o'r asesiad poblogaeth a chynllun ardal.

4.11 Bydd goblygiadau adnoddau i weithredu'r blaenoriaethau yn y cynllun ardal. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y cynllun ac yn y cynlluniau cwmpas a chyflawni manwl ar gyfer pob blaenoriaeth.

<u>Risgiau</u>

4.12 Y risg na fydd y cynllun yn cwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. I liniaru'r risg yma, mae'r cynllun yn seiliedig ar y templed a gynhyrchwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ac rydym yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru drwy'r grwpiau arweinwyr rhanbarthol.

4.13 Y risg na fydd y cynllun yn cwrdd â gofynion y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, gofalwyr a phobl sydd angen gofal a chymorth. I liniaru'r risg yma rydym wedi ymgynghori ag ymgysylltu gydag amrediad eang o fudd-ddeiliaid.

4.14 Y risg na fydd capasiti yn y rhanbarth i gyflawni unrhyw flaenoriaethau ychwanegol neu ehangedig uwchben blaenoriaethau cyfredol y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

Gyrwyr a goblygiadau

4.15 Bydd y cynllun yn cael effaith ar strategaethau gwrthdlodi drwy anelu i wella'r ffordd rydym yn cwrdd ag anghenion gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae cysylltiadau cryf rhwng tlodi ag anghydraddoldebau iechyd y bydd y gwaith yma yn helpu i fynd a'r afael a nhw. Mae cysylltiadau rhwng trosedd ag anhrefn drwy'r bennod ar drosedd yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

4.16 Bydd y cynllun hefyd yn ystyried gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys cynaladwyedd. Rydym wedi gwneud asesiad o'r effaith ar les ar gyfer y cynllun yma.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Y llwybr arfaethedig ar gyfer y cynllun yw:

- Cymeradwyaeth gan y Grŵp Arweinyddiaeth Ranbarthol 15fed o Ragfyr 2017 a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol 11eg o Ionawr 2018 - Wedi'i gymeradwyo
- Cymeradwyaeth gan awdurdodau lleol a bwrdd iechyd (Ionawr i Fawrth 2018)
- Cyhoeddi (1af o Ebrill 2018)

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1 Bu i'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft gael ei gynnal rhwng 11eg o Awst a 17eg o Dachwedd 2017. Pwrpas ymgynghori ar fersiwn cynnar o'r cynllun ardal oedd cynnwys cymaint o bobl yn yr ysgrifennu a siapio'r cynllun yng nghamau buan y prosiect. Mae'r canfyddiadau o'r ymgynghoriad wedi eu hymgorffori i mewn i'r draft diwygiedig o'r cynllun ac mae adroddiad ymgynghori llawn wedi'i gynhyrchu. Gweler Atodiad 2.

6.2 Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac adroddiad ar yr ymgynghoriad wedi eu cwblhau ar gyfer y cynllun rhanbarthol, Gweler Atodiad 3. Bydd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb pellach angen eu cwblhau fel y bydd cynlluniau manwl yn cael eu datblygu o dan bob un o'r blaenoriaethau strategol.

## SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL

### Pennaeth Cyllid:

Cadarnhaf gywirdeb rhan 4 o'r adroddiad sy'n nodi'r goblygiadau adnoddau o gefnogi'r prosiect, a deallaf na fyddai angen ymrwymiad ariannol ychwanegol i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Rhanbarthol yma.

### Pennaeth Cyfreithiol:

Mae'r penderfyniad i gytuno a mabwysiadu cynllun ardal dan Adran 14A o Deddf Gwasanethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn disgyn ar yr awdurodau lleol a iechyd unigol. Ceir crynodeb gywir o'r cefndir statudol sydd yn berthnasol ar gyfer gweithredu ar y cyd yn yr adroddiad . Dylid nodi fod gofyn statudol i ymgysylltu a rhai budd ddeiliaid penodol wrth baratopi y cynllun ac fe adroddir ar hyn. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru 2018 i 2023

Atodiad 2 - Cynllun Rhanbarthol Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2018 i 2023: Adroddiad ar yr ymgynghoriad

Atodiad 3 – Cynllun Rhanbarthol Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru: Asesiad o'r Effaith ar Les

**Papurau Cefndirol:**

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru: www.cydweithredfagogleddcymru.cymru

Canllawiau statudol cynllun ardal: http://gov.wales/docs/dhss/publications/170404sguidecy.pdf

Templed a Canllawiau cynllun ardal Gofal Cymdeithasol Cymru:
https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/cynllunio-a-hyrwyddo